Beibl i Blant
yn cyflwyno

Iesu a Sacheus

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Janie Forest

addaswyd gan: Ruth Klassen

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2017 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Un diwrnod, aeth Iesu i mewn i Jericho. Dyma'r ddinas gafodd ei dinistrio gan Josua ganrifoedd yn ôl.

Roedd wedi cael ei hail-adeiladu ac roedd llawer o bobl yn byw yno - gan gynnwys dyn o'r enw Sacheus.

Doedd pobl Jericho ddim
yn hoff iawn o Sacheus,
am fod rhaid iddyn nhw
dalu trethi iddo fe.

Roedd Sacheus yn
anfon ychydig o'r arian
i'r llywodraeth, ond roedd
e'n cadw llawer iddo'i hun.

Roedd ei waith fel casglwr trethi wedi gwneud Sacheus yn gyfoethog iawn. Ai tŷ Sacheus oedd y FWYAF yn yr ardal?



Ond roedd
Sacheus
yn ddyn byr.
Doedd Sacheus
ddim wedi tyfu
fel pobl eraill.



Pan glywodd Sacheus fod Iesu wedi dod i Jericho, roedd e am weld y Dyn o Nasareth ...

... oedd yn dweud ei fod yn Fab Duw. Ond roedd yna dyrfa fawr... ac roedd y bobl yn dal.


Cafodd
Sacheus syniad!
Petai e'n gallu dringo
coeden oedd yn tyfu
wrth ymyl y ffordd
... byddai'n gallu
gweld Iesu.

Wedi dringo
coeden sycamor,
eisteddodd
Sacheus yn
gyfforddus
ar fforch
yn y gangen
a disgwyl
am Iesu.

Efallai iddo feddwl,
"Bydda i'n gallu
gweld Iesu yn
glir, ond bydd
neb yn gallu fy
ngweld i."

“Sacheus, brysia!
Tyrd i lawr!”
Doedd y casglwr
trethi bach
ddim yn gallu
credu ei
glustiau.

Roedd Iesu'n sefyll o dan y goeden ac yn edrych arno. Roedd Iesu'n galw arno fe!

Os oedd clywed Iesu'n galw arno yn synnu Sacheus, mae'n siŵr ei fod wedi ei synnu'n fwy pan ddywedodd Iesu, ...

... "Mae'n rhaid i mi aros yn dy dŷ di heddiw."
Daeth Sacheus i lawr o'r goeden ar gymaint o frys, bu bron iddo syrthio.

Roedd Sacheus wrth ei fodd
fod Iesu am ddod i'w dŷ.
Ond doedd y bobl eraill
ddim yn hapus
gyda hyn.



Fe wnaethon nhw gwyno fod Iesu'n mynd i aros i dŷ pechadur fel Sacheus.



Cafodd Sacheus fywyd newydd trwy Iesu. Dywedodd Sacheus, "Arglwydd, dwi'n mynd i roi hanner popeth sydd gen i i'r rhai sy'n dlawd.



Ac os ydwi wedi twyllo pobl tala i bedair gwaith cymaint yn ôl iddyn nhw."

Roedd Iesu yn falch fod Sacheus wedi newid. Mae wrth ei fodd pan mae pobl yn troi o wneud pethau drwg a gwneud yr hyn sy'n dda.



Dywedodd Iesu, "Dw i, Mab y Dyn, wedi dod i chwilio am y rhai sydd ar goll." Aeth Iesu i chwilio am Sacheus yn Jericho y diwrnod hwnnw – a chael hyd iddo!



Iesu a Sacheus

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Luc 19

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16